Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad | Commonwealth Parliamentary Association
Senedd Cymru | Welsh Parliament

**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**PWYLLGOR GWEITHREDOL CANGEN SENEDD CYMRU**

**ADRODDIAD I GANGEN Y SENEDD AM Y CYFNOD**

**6 Rhagfyr 2023 – 9 Rhagfyr 2024**

## Cefndir

Cytunodd Senedd Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais i gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Croesawyd Cymru yn ffurfiol yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi 1999.

## Strwythur y Gangen

**Mae pob un o Aelodau'r Senedd yn aelod awtomatig o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**

## Deiliaid Swyddi:

*Llywydd:* Elin Jones AS
*Is-lywydd:* David Rees AS
*Cadeirydd:* Rhun ap Iorwerth AS
*Ysgrifennydd:* Manon Antoniazzi,
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
*Ysgrifennydd Dros Dro:*
*Al Davies, Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol*

## Pwyllgor Gweithredol y Gangen

Rhianon Passmore AS
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS
Delyth Jewell AS

**<u>RHAGAIR Y CADEIRYDD</u>**

Mae'r cyfnod adrodd hwn yn cwmpasu blwyddyn sydd wedi bod yn un gadarnhaol iawn i Gangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

Mae hyn wedi cynnwys cymryd rhan mewn Cynhadledd Ranbarthol unigryw a gynhaliwyd, am y tro cyntaf erioed, ar ynys anghysbell St Helena yn ogystal ag yng Nghynhadledd Seneddol flynyddol y Gymanwlad eleni, a gynhaliwyd gan Senedd De Cymru Newydd yn Sydney, Awstralia.

Roedd yn wych gweld ein Cynhadledd Seneddwragedd Ranbarthol yn ailddechrau gyda rhaglen a gynhaliwyd gan Senedd Malta. Cynhaliwyd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, gynhelir bob dwy flynedd, eleni hefyd ac roedd y Senedd yn falch iawn o gael ei chynrychioli yn y gynhadledd, a gynhaliwyd gan Senedd Seland Newydd.

Yn ogystal â chael ein cynrychioli ar raglen flaenllaw Seminar San Steffan CPA UK yn Llundain, eleni daeth Seminar San Steffan i'r Senedd am ddiwrnod; gan gynnig cyfle inni groesawu dros 30 o Seneddwyr a Chlercod o nifer o Ganghennau a Rhanbarthau o'r Gymdeithas i ddysgu mwy am y datblygiadau presennol yn ein senedd genedlaethol ac am ein ffyrdd arloesol o weithio.

Roedd llawer o ddiddordeb yng Nghynhadledd Deallusrwydd Artiffisial y Gymdeithas a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Senedd Singapore lle buom yn llwyddiannus yn ennill lle.

Carreg filltir allweddol eleni oedd penderfyniad ein Rhanbarth BIM i sefydlu Rhwydwaith LHDTC+ ac mae Cangen y Senedd wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yn y camau cynnar o lywio'r gwaith pwysig hwn.

Wrth edrych at y dyfodol, mae 2025 yn argoeli i fod yn flwyddyn brysur a chyffrous i'n Cangen gyda chynadleddau wedi'u cynllunio yn yr Alban, Quebec, Singapore a Barbados. Rhaglen fwyaf cyffrous a disgwyliedig y flwyddyn nesaf, fodd bynnag, fydd ein rhaglen ni – wrth i ni baratoi i gynnal (am y tro cyntaf ers 2014) Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIM) yn y Senedd ym mis Mehefin.

***Rhun ap Iorwerth AS***
*Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.*

**DETHOLIAD O'R GWEITHGAREDDAU YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD**:

**Cymryd rhan mewn Cynadleddau a Seminarau'r Gymdeithas**

*Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
*Malta*
*7-8 Mawrth*

Cynrychiolwyd Cangen y Senedd gan Rhianon Passmore AS a Janet Finch Saunders AS yn y Gynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad Ranbarthol, a gynhaliwyd gan Gangen Malta.

Adroddiad (allanol)

*72ain Seminar San Steffan*
*Llundain / Senedd*
*11-15 Mawrth*

Cafodd y Gangen ei chynrychioli yn Seminar San Steffan gan Carolyn Thomas AS. Y seminar yw rhaglen flynyddol flaenllaw CPA UK ac fe'i hanelir at Aelodau newydd neu newydd eu hethol a Chlercod sy'n datblygu.

Eleni hefyd daeth y Seminar i'r Senedd am ddiwrnod a nododd y Gangen mor braf oedd croesawu rhyw 30 o Aelodau a Chlercod a oedd yn cynrychioli ystod o ddeddfwrfeydd datganoledig a llai, gan gynnwys o Awstralia, Canada, y Caribî a nifer o'n Rhanbarth BIM ein hunain; gan gynnwys St Helena, Ynysoedd y Sianel ac Ynysoedd Falkland.

Adroddiad (allanol)

*Cynhadledd BIMR,*
*St Helena (Mai)*

Cynrychiolodd Natasha Asghar AS y Senedd yn y Gynhadledd Ranbarthol unigryw hon.

Adroddiad (allanol)

*Cynhadledd Deallusrwydd Artiffisial a Ffugiadau Dwfn*
*Singapôr*
*18-20 Mehefin*

Dewiswyd Lee Waters AS fel cynrychiolydd y Senedd i fynd i'r gynhadledd hon gan y Gymdeithas, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Senedd Singapore.
Adroddiad

*Senedd Ieuenctid y Gymanwlad*
*Wellington, Seland Newydd*
*2-6 Medi*

Roedd y Gangen yn falch o gael ei chynrychioli yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad eleni, a gynhaliwyd gan Senedd Seland Newydd, gan Tegan Skyrme, cyn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.

Adroddiad

*67ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad,*
*Sydney, De Cymru Newydd*
*3-8 Tachwedd*

Cynrychiolodd y Llywydd a Chadeirydd y Gangen y Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni. Cynhaliwyd y Gynhadledd, yr oedd dros 500 o seneddwyr o bob rhan o Naw Rhanbarth y Gymdeithas yn bresennol ynddi, yn Sydney i nodi Deucanmlwyddiant Senedd De Cymru Newydd.

Adroddiad yn cael ei ddatblygu.

**Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD)**

Mae Mark Isherwood AS wedi parhau i gynrychioli'r Gangen fel ein Hyrwyddwr CPwD. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Gymdeithas gyfres o ddigwyddiadau i nodi diwrnod rhyngwladol pobl ag anableddau a gweminar ar-lein gan ein

Rhanbarth BIM ar "*Beth yw'r rhwystrau i bobl anabl wrth sefyll am swydd etholedig a sut y gellir eu goresgyn?*" Roedd y Dirprwy Lywydd yn bresennol.

**Ymweliadau nodedig a gweithgareddau eraill.**

*Ymweliad gan Ddirprwyaeth dan Arweinyddiaeth y Llefarydd o Gynulliad Cenedlaethol Québec*
*11 Mehefin*

Croesawodd y Llywydd ymweliad y Llefarydd Nathalie Roy a'i dirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Quebec. Cynhaliwyd rhaglen lawn gan y ddirprwyaeth a oedd wedi cynnwys sesiynau ar Ieithoedd Swyddogol, Menywod yn y Senedd a throsolwg o Fusnes y Senedd a'r Diwygiadau presennol.

**Ymwelwyr â'r Senedd o'r Gymanwlad**.

Mae'r Gangen wedi cynorthwyo'r broses o ddatblygu rhaglenni ar gyfer ymwelwyr â'r Senedd, gan gynnwys Llefarwyr, Uchel Gomisiynwyr, a dirprwyaethau a swyddogion o wledydd a seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Ffiji, Quebec ac Awstralia.

**Edrych tua'r dyfodol**

2025

- 73fed Seminar San Steffan (Mawrth)
- Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR, yr Alban (Mawrth)
- Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Cymru (Mehefin)
- Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Barbados (Hydref)

Rhagfyr 2024